Asiantaeth Safonau Bwyd
food.gov.uk

# Lladd da byw gartref: Canllawiau ar y gyfraith yng Nghymru ac yn Lloegr

# Lladd da byw gartref – crynodeb

Y gofynion cyfreithiol a chanllawiau ar gyfer lladd da byw gartref.

## Gogledd Iwerddon

Mae canllawiau penodol ar ladd da byw gartref ar gyfer Gogledd Iwerddon. Mae'r rhain yn rhoi gwybodaeth am y gyfraith yn y wlad hon.

Cysylltwch â swyddfeydd rhanbarthol Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA) i gael gwybodaeth am:

- les anifeiliaid adeg eu lladd
- gwaredu sgil-gynhyrchion anifeiliaid

### Northern Ireland

PDF
Gweld Home slaughter of livestock: A guide to the law in Northern Ireland. as PDF(Open in a new window) (331.46 KB)

## Hanes adolygu

| Rhif yr adolygiad | Dyddiad | Diben yr adolygiad | Adolygwyd gan |
|---|---|---|---|
| 5 | Ionawr 2026 | • Trosglwyddo i dempled canllawiau newydd yr ASB.<br>• Tudalen gynnwys wedi'i diweddaru.<br>• Diweddariad i gyfeiriadau a dolenni deddfwriaethol.<br>• Diweddariad i Statws Cyfreithiol y canllawiau.<br>• Symleiddio'r adran ar y Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy.<br>• Diweddariad i'r adran ar y Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid.<br>• Diweddariad i'r adran ar y Rheoliadau Lles Anifeiliaid.<br>• Diweddariad i'r adran ar gysylltiadau defnyddiol.<br>• Diweddariad i'r rhestr SRM yn Atodiad C. | Tîm Polisi Hylendid Cig a Thîm Polisi Hylendid yr ASB yng Nghymru |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 4 | Medi 2020 | • Caniatáu defnyddio deiliaid Tystysgrif Cymhwysedd neu drwydded i ladd o dan Reoliad y Cyngor 1099/2009.<br>• Ychwanegu arferion gorau.<br>• Ychwanegu'r gofynion cofnodi ar gyfer ffermwyr.<br>• Mewnosod adran ar sgil-gynhyrchion anifeiliaid.<br>• Diweddaru'r cyfeiriadau deddfwriaethol.<br>• Ychwanegu rhestr o gysylltiadau a dolenni defnyddiol.<br>• Newidiadau i'r cynllun a'r fformat. | Tîm Polisi Hylendid Cig |

## Crynodeb

### Diben

Datblygwyd y canllawiau hyn i roi gwybodaeth am y gyfraith sy'n cwmpasu lladd da byw gartref.

### Statws cyfreithiol

Nod y canllawiau hyn yw egluro'n glir y gofynion cyfreithiol sy'n ymwneud â lles anifeiliaid, enseffalopathïau sbyngffurf trosglwyddadwy (TSEs), sgil-gynhyrchion anifeiliaid (ABPs) a hylendid cig. Mae'r canllawiau hefyd yn nodi arferion gorau.

### Ar gyfer pwy mae'r cyhoeddiad hwn?

Mae'r canllawiau hyn ar gyfer:

- perchnogion da byw
- lladdwyr sydd â thrwydded Lles Adeg Lladd (WATOK)
- deiliaid Tystysgrif Cymhwysedd (CoC) i ladd anifeiliaid
- awdurdodau lleol

### I ba wledydd yn y DU y mae'r canllawiau hyn yn berthnasol?

- Cymru
- Lloegr

### Geiriau allweddol

- cig a da byw
- hylendid a diogelwch bwyd
- cyfraith bwyd, monitro a rheolaethau

# Lladd da byw gartref: Canllawiau ar y gyfraith yng Nghymru ac yn Lloegr – cyflwyniad

Y gofynion cyfreithiol a chanllawiau ar gyfer lladd da byw gartref.

## Cyflwyniad

Ystyr ‘lladd gartref’ yw pan fydd anifail da byw yn cael ei ladd gan ei berchennog ar ei safle i’w fwyta ganddo ef ei hun neu gan aelodau o’r teulu agos sy’n byw yno. Gall y gweithgarwch lladd gael ei gyflawni gan laddwr trwyddedig, a ddiffinnir fel person sy’n meddu ar drwydded Lles Adeg Lladd (WATOK) neu Dystysgrif Cymhwysedd (CoC), ar yr amod ei fod yn cael ei wneud o dan oruchwyliaeth y perchennog. Nid yw lladd gartref yn digwydd mewn lladd-dy cymeradwy. Ni ellir symud carcasau na rhannau o garcasau da byw a gaiff eu lladd gartref i safle arall i’w prosesu, oni bai eu bod yn cael eu gwaredu fel sgil-gynhyrchion anifeiliaid.

Mae gwahaniaeth rhwng ‘lladd gartref’ a ‘lladd yn breifat’, sef pan fydd perchennog yr anifail yn ei anfon i ladd-dy cymeradwy i’w ladd ac mae’r carcas wedi’i drin yn cael ei ddychwelyd i’r perchennog. Byddai anifeiliaid sy’n cael eu “lladd yn breifat” yn destun mesurau arolygu ffurfiol gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) fel y pennir gan y Rheoliad Rheolaethau Swyddogol ( OCR). Wedi hynny, byddai’r carcas yn cael marc iechyd i nodi ei fod yn addas i’w fwyta gan bobl.

Mae lladd gartref hefyd yn wahanol i “ladd mewn argyfwng”, sef lladd carnolion (‘ungulates’) domestig (er enghraifft, gwartheg, defaid) y tu allan i’r lladd-dy, yn dilyn damwain/anaf, o dan weithdrefnau brys a geir mewn deddfwriaeth. Mae hyn ond yn berthnasol i’r gweithgarwch o ladd anifail sydd fel arall yn iach, lle mae’r ddamwain/anaf wedi golygu nad oes modd ei gludo i’r lladd-dy am resymau lles. O dan yr amgylchiadau hyn, rhaid i’r fath anifeiliaid fod yn destun arolygiad ante mortem ac ardystiad gan Filfeddyg Swyddogol (OV). Yna, byddai’r carcas yn destun archwiliad milfeddygol pellach gan OV ac yn destun gweithdrefnau arolygu ffurfiol gan yr ASB cyn cael marc iechyd, os yw’n addas i’w fwyta gan bobl. Yn wahanol i gig o anifeiliaid a gaiff eu lladd gartref, gall cig o anifeiliaid sy’n cael eu lladd yn unol â’r gweithdrefnau brys gael ei roi ar y farchnad i’w werthu i’w fwyta gan bobl.

Dylid nodi bod lladd gartref yn debygol o beri mwy o risg i iechyd y cyhoedd na lladd sy’n digwydd mewn safle cymeradwy lle cig yn destun gweithdrefnau arolygu ffurfiol i wirio ei fod yn addas i’w fwyta gan bobl. Mae gwefan yr ASB yn cynnwys rhestr o’r holl sefydliadau yng Nghymru a Lloegr sydd wedi’u cymeradwyo i drin, paratoi neu gynhyrchu cynhyrchion sy’n dod o anifeiliaid, ac mae hyn yn cynnwys lleoliadau lladd-dai cymeradwy. Gall perchnogion da byw hefyd ddod o hyd i’r manylion yn Atodiad A.

Mae’n ofynnol yn ôl y gyfraith i bob perchennog da byw gadw cofnodion priodol o ran adnabod a symud eu hanifeiliaid. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gwartheg, defaid, geifr, moch a cheirw sy’n cael eu lladd gartref yn cael eu cofnodi mewn cofrestrau fferm a bod hysbysiad yn cael ei roi yn y ffordd arferol i’r asiantaeth briodol, fel Gwasanaeth Symud Gwartheg Prydain (BCMS), y Gwasanaeth Gwybodaeth am Dda Byw (LIS) neu EID Cymru ar gyfer defaid a geifr, a’r gwasanaeth trwyddedu electronig ar gyfer symud anifeiliaid (eAML2) mewn perthynas â moch. Gweler rhagor o wybodaeth am gadw cofnodion da byw yng Nghymru a Lloegr. Os canfyddir nad oes cofnodion priodol wedi’u cadw, bydd camau gorfodi yn cael eu cymryd yn ôl yr angen.

## Cynulleidfa darged

Perchenogion da byw (footnote 1) sy’n ystyried lladd gartref ar eu fferm (footnote 2) i’w bwyta ganddynt yn bersonol neu gan aelodau o’r teulu agos sy’n byw yno.

Deiliaid trwydded WATOK i ladd anifeiliaid, neu CoC a gyhoeddwyd gan yr awdurdod cymwys perthnasol, sy’n lladd gartref o dan gyfrifoldeb a goruchwyliaeth perchennog y da byw ar y fferm at ddefnydd personol y perchennog neu aelodau uniongyrchol o’i deulu sy’n byw yno.

Awdurdodau rheoleiddio a gorfodi sy’n gyfrifol am orfodi lles anifeiliaid, hylendid bwyd, y Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (TSEs) a’r Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (ABP) ar ffermydd.

## Diben y canllawiau

Rhoi cyngor ar yr amodau y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn gallu lladd da byw gartref yn gyfreithlon.

Diogelu'r gadwyn fwyd a bwyd anifeiliaid a lleihau unrhyw risgiau posib i iechyd a lles pobl ac anifeiliaid.

## Statws cyfreithiol y canllawiau

Nid yw deddfwriaeth sy'n uniongyrchol gymwys i'r UE bellach yn gymwys ym Mhrydain Fawr. Gwnaeth deddfwriaeth yr UE a gafodd ei dargadw wrth i'r DU ymadael â'r UE droi'n gyfraith a gymathwyd ar 1 Ionawr 2024, yn unol â'r hyn a gyhoeddwyd ar legislation.gov.uk. Dylai cyfeiriadau at unrhyw ddeddfwriaeth yng nghanllawiau'r ASB sydd ag 'UE' neu 'CE' yn y teitl (er enghraifft, Rheoliad (CE) 178/2002) gael eu hystyried yn gyfraith a gymathwyd lle bo hynny'n gymwys i Brydain Fawr, ac yn gyfraith yr UE sy'n uniongyrchol gymwys lle y bo hynny'n gymwys i Ogledd Iwerddon. Bellach, dylid ystyried cyfeiriadau at 'Gyfraith yr UE a Ddargedwir' neu 'REUL' fel cyfeiriadau at gyfraith a gymathwyd.

Datblygwyd y nodiadau canllaw hyn i roi:

- Canllawiau ar ofynion cyfreithiol

Rheoliad (CE) Rhif 178/2002 sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd

Rheoliad (CE) Rhif 852/2004 ar hylendid bwydydd

Rheoliad (CE) Rhif 853/2004 sy'n gosod rheolau hylendid penodol ar gyfer bwyd sy'n dod o anifeiliaid (fel y'i diwygiwyd)

Rheoliad (CE) Rhif 999/2001 (fel y'i diwygiwyd) sy'n gosod rheolau ar gyfer atal, rheoli a dileu enseffalopathïau sbyngffurf trosglwyddadwy (TSEs) mewn anifeiliaid

Rheoliad (CE) Rhif 1069/2009 sy'n gosod rheolau iechyd mewn cysylltiad â sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid na fwriedir i bobl eu bwyta

Rheoliad (UE) 2017/625 sy'n gosod y rheolau ar gyfer cynnal rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill gan yr awdurdodau cymwys

Rheoliad y Cyngor (CE) Rhif 1099/2009 ar ddiogelu anifeiliaid adeg eu lladd

Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 (fel y'u diwygiwyd)

Rheoliadau Hylendid a Diogelwch Bwyd (Lloegr) 2013 (fel y'u diwygiwyd)

Rheoliadau Bwyd Cyffredinol 2004

Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2018 (fel y'u diwygiwyd)

Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Lloegr) 2018

Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014

Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Lloegr) 2013 (fel y'u diwygiwyd)

Rheoliadau Lles Anifeiliaid Adeg eu Lladd (Cymru) 2014

Rheoliadau Lles Anifeiliaid Adeg eu Lladd (Lloegr) 2015

- Canllawiau arferion gorau

Ni all y nodiadau canllaw hyn ar y gofynion cyfreithiol drin a thrafod pob sefyllfa, ac efallai y bydd angen i chi ystyried y ddeddfwriaeth berthnasol i weld sut y mae'n berthnasol i'ch amgylchiadau chi. Efallai y bydd ceidwaid da byw neu fusnesau sydd ag ymholiadau penodol yn dymuno ceisio cyngor eu hasiantaeth orfodi leol. Fel arfer, dyma fydd adran Safonau Masnach/Iechyd yr Amgylchedd yr awdurdod lleol lle mae'r fferm. Gweler yr wybodaeth am fanylion cyswllt Safonau Masnach a manylion eich awdurdod lleol. Bydd dilyn y nodiadau canllaw hyn yn eich helpu i gydymffurfio â'r gyfraith.

Nid yw'n ofynnol yn ôl y gyfraith i chi ddilyn canllawiau arferion gorau, ond fe'ch anogir i gymryd y camau a argymhellir. Nodir yr holl ganllawiau ar arferion gorau mewn blychau wedi'u lliwio, gyda'r pennawd Arferion Gorau:

Arferion gorau
Mae'r holl ganllawiau arferion gorau wedi'u nodi'n glir yn y ddogfen hon yn y fformat hwn.

1. Ni fwriedir i'r canllawiau hyn gwmpasu pob rhywogaeth da byw, ond maent yn cwmpasu'r rhywogaethau hynny yr ydym yn cael y mwyafrif o ymholiadau yn eu cylch. Maent yn arbennig o berthnasol i wartheg, defaid a geifr lle mae rheolaethau TSE yn berthnasol.
2. At ddibenion y canllawiau hyn, diffinnir 'fferm' fel unrhyw safle lle cedwir da byw.

# Lladd da byw gartref: Canllawiau ar y gyfraith yng Nghymru ac yn Lloegr – rheoliadau hylendid bwyd

Y gofynion cyfreithiol a chanllawiau ar gyfer lladd da byw gartref o dan y Rheoliadau Hylendid Bwyd.

## Rheoliadau hylendid bwyd

Mae Rheoliad (CE) Rhif 853/2004 (o hyn ymlaen y Rheoliad Hylendid Bwyd) yn nodi, yn y rhan fwyaf o achosion, fod yn rhaid i gig a fwriedir i'w fwyta gan bobl ddod o anifeiliaid a gaiff eu lladd mewn lladd-dy cymeradwy. Mae'r fath ddulliau lladd, ymhlith pethau eraill, yn destun arolygiad a dilysiad gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB).

Mae cyfreithlondeb lladd y tu allan i safle cymeradwy yn dibynnu a yw'n fwriad i'r carcas neu gig o'r carcas gael ei "roi ar y farchnad". Mae Erthygl 3 o Reoliad (CE) Rhif 178/2002 yn diffinio "rhoi ar y farchnad" fel "the holding of food or feed for the purpose of sale, including offering for sale or any other form of transfer, whether free of charge or not, and the sale, distribution and other forms of transfer themselves". (Sylwer nad yw'r dyfyniad hwn ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth ydyw na chafodd ei gwneud yn Gymraeg.) Er enghraifft, mae cyflenwi carcas yn ôl i'r perchennog gan ladd-dy cymeradwy yn gyfystyr â rhoi cig ar y farchnad o dan y diffiniad hwn oherwydd:

- caiff bwyd ei gyflenwi wrth gynnal y busnes; a
- caiff cig ei gyflenwi gan fod y cynnyrch sy'n cael ei ddychwelyd ar ôl y lladd (hynny yw, y carcas wedi'i drin neu'r cig) yn hollol wahanol i'r hyn a ddosbarthwyd i'r lladd-dy (yr anifail byw).

Felly, er mwyn sicrhau bod lladd gartref yn gyfreithlon ac wedi'i eithrio rhag y Rheoliad Hylendid Bwyd, rhaid i'r perchennog gyflenwi aelodau o'i deulu agos sy'n rhannu'r un cartref yn unig. Ni ellir symud carcasau na rhannau o garcasau da byw sy'n cael eu lladd gartref i safle arall i'w

prosesu, oni bai eu bod yn cael eu gwaredu fel sgil-gynhyrchion anifeiliaid. Mae'n anghyfreithlon o dan Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006, Rheoliadau Diogelwch a Hylendid Bwyd (Lloegr) 2013, a Rheoliadau Bwyd Cyffredinol 2004 i'r perchennog gyflenwi eraill, er enghraifft, ffrindiau neu deulu nad ydynt yn byw yn yr un cartref, neu os yw'r cig yn cael ei werthu trwy siop ar y fferm neu mewn marchnadoedd ffermwyr.

Mae cig o anifeiliaid a gaiff ei ladd gartref a'i roi ar y farchnad yn anghyfreithlon, ac felly gellir ei atafaelu a'i ddinistrio. Gall swyddogion awdurdodau lleol ardystio nad yw cig wedi'i gynhyrchu, ei brosesu na'i ddosbarthu yn unol â'r Rheoliadau hynny a nodwyd uchod. Byddai cig o'r fath yn cael ei drin wedyn fel cig nad yw'n cydymffurfio â gofynion diogelwch bwyd o dan adran 9 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990. Gellid cael gorchymyn i'w gondemnio gan Lys Ynadon. Wrth gyflawni'r rôl orfodi hon, efallai y bydd angen i awdurdodau lleol gysylltu â'r ASB yn achlysurol. Mae rhestr o bwyntiau cyswllt yn Atodiad A.

# Lladd da byw gartref: Canllawiau ar y gyfraith yng Nghymru ac yn Lloegr – rheoliadau enseffalopathïau sbyngffurf trosglwyddadwy

Y gofynion cyfreithiol a chanllawiau ar gyfer lladd da byw gartref o dan y Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy.

## Rheoliadau enseffalopathïau sbyngffurf trosglwyddadwy

Mae'r rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (TSE) yn gymwys lle bynnag y caiff anifail sy'n agored i TSE ei ladd. **Mae hyn yn cynnwys lladd gartref.**

Gr?p o glefydau dirywiol angheuol yr ymennydd yw TSEs, sy'n effeithio ar anifeiliaid a phobl fel ei gilydd. Maent yn cael eu hachosi gan brionau, sef ffurfiau annormal o broteinau sy'n gallu sbarduno clefyd. Mewn gwartheg, cyfeirir at TSE fel enseffalopathi sbyngffurf buchol (BSE), neu 'glwy'r gwartheg cynddeiriog', ac mewn defaid a geifr, cyfeirir ato fel clefyd y crafu (neu 'scrapie' yn Saesneg). Mae Deunydd Risg Penodedig (SRM) yn cyfeirio at y rhannau o wartheg, defaid a geifr sydd fwyaf tebygol o gario heintusrwydd os yw'r anifail wedi'i heintio â TSE. Mae'n hanfodol bod SRM yn cael ei dynnu o gadwyni bwyd pobl ac anifeiliaid a'i ddinistrio i ddiogelu iechyd y cyhoedd ac anifeiliaid.

Ar ôl lladd gwartheg, defaid neu eifr, rhaid tynnu, staenio a chael gwared ar yr SRM yn unol â Rheoliad (CE) Rhif 999/2001 (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel y Rheoliad TSE) a Rheoliad (CE) Rhif 1069/2009 ar sgil-gynhyrchion anifeiliaid (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel y Rheoliad ABP).

Mae rhestr lawn o SRM, ynghyd â'r gofynion staenio, yn Atodiad C.

Rhaid cael gwared ar SRM mewn ffatri rendro neu losgi categori 1 cymeradwy, a gellir gweld manylion y rhain ar y dudalen Ffatrïoedd gweithredu sgil-gynhyrchion anifeiliaid: safleoedd cymeradwy ac yn Atodiad A.

Yn ogystal â chael gwared ar SRM, rhaid i'r gwartheg canlynol brofi'n negyddol am BSE o hyd cyn bwyta'r cig:

- gwartheg iach dros 30 mis oed, a gaiff eu lladd i'w bwyta gan bobl, a aned yn Rwmania, Bwlgaria a phob gwlad y tu allan i'r UE
- gwartheg dros 48 mis oed a gaiff eu lladd mewn argyfwng (hynny yw, anifail sydd fel arall yn iach sydd wedi cael damwain/anaf sy'n ei rwystro rhag cael ei gludo i'r lladd-dy)

- gwartheg dros 24 mis oed a gaiff eu lladd mewn argyfwng a aned yn Rwmania, Bwlgaria a phob gwlad arall y tu allan i'r UE
- gwartheg o bob oed sy'n dangos arwyddion o BSE. Rhaid rhoi gwybod am y gwartheg hyn hefyd gan fod BSE yn glefyd hysbysadwy

Os oes angen prawf BSE ar yr anifail sydd i'w ladd, dylech gysylltu â safle samplu BSE cymeradwy i wneud y trefniadau profi. Mae rhagor o wybodaeth sy'n manylu ar yr holl safleoedd samplu BSE cymeradwy ar gael ar wefan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA).

Dim ond os yw'r prawf BSE yn negyddol y dylid bwyta cig o'r anifail. Os yw'r prawf yn bositif, rhaid cael gwared ar y carcas a phob rhan o'r corff fel sgil-gynnyrch anifeiliaid categori 1 (SRM). Rhestrir y manylion cyswllt perthnasol er mwyn cael cyngor ar brofion BSE a gwaredu sgil-gynhyrchion anifeiliaid yn Atodiad A.

Mae'r rheoliadau TSE domestig yn caniatáu i awdurdodau lleol benodi arolygwyr i orfodi'r ddeddfwriaeth a rhoi pwerau i arolygwyr fynd i mewn i safleoedd, atafaelu unrhyw garcas neu ran o garcas a chael gwared arno yn ôl yr angen. (footnote 1) Fel arall, gall arolygwr gyflwyno hysbysiad i'r perchennog sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo gael gwared arno.

1. Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2018 / Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Lloegr) 2018 (fel y'u diwygiwyd)

# Lladd da byw gartref: Canllawiau ar y gyfraith yng Nghymru ac yn Lloegr – rheoliadau sgil-gynhyrchion anifeiliaid

Y gofynion cyfreithiol a chanllawiau ar gyfer lladd da byw gartref o dan y Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid.

## Rheoliadau sgil-gynhyrchion anifeiliaid

Os ydych chi'n lladd anifeiliaid gartref, ystyrir bod unrhyw rannau o'r carcas nad ydych chi'n eu bwyta yn sgil-gynhyrchion anifeiliaid o dan y Rheoliad ABP, a rhaid eu trin yn unol â hynny er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd ac anifeiliaid.

Mae sgil-gynhyrchion anifeiliaid yn gyrff cyfan, yn rhannau o anifail, yn gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid neu'n gynhyrchion eraill o anifail nad yw'n fwriad iddynt gael eu bwyta gan bobl.

Mae deunydd yn troi'n sgil-gynnyrch anifeiliaid pan fydd naill ai'n anaddas i'w fwyta gan bobl, neu pan gymerir penderfyniad nad yw'r deunydd wedi'i fwriadu i'w fwyta, hyd yn oed os yw'n addas i'w fwyta. Ar ôl ei ddosbarthu'n sgil-gynnyrch anifeiliaid, ni ellir ei ddefnyddio'n ddiweddarach fel bwyd.

Mae'r Rheoliad ABP yn gosod sgil-gynhyrchion anifeiliaid mewn 3 chategori yn seiliedig ar risg. (footnote 1) Bydd gwastraff sy'n cronni yn sgil lladd gartref, gan gynnwys crwyn wedi'u trin a chroen, carnau, plu, gwlân, cyrn a gwallt, yn dod o dan gategori 3 os nad yw'r deunyddiau hynny'n dangos arwyddion o glefyd y gellir ei drosglwyddo drwy'r deunydd hwnnw i bobl neu anifeiliaid. (footnote 2) Mae gwastraff arall sy'n cronni yn sgil lladd gartref yn dod o dan gategori 1 er enghraifft, os yw'n cynnwys deunydd risg penodedig (SRM), neu gategori 2. Mae'r categorïau

hyn yn pennu sut y mae'n rhaid trin a chael gwared ar ddeunydd. Cyfeiriwch at y Rheoliad ABP am ragor o wybodaeth am gael gwared ar sgil-gynhyrchion anifeiliaid.

Rhaid cael gwared ar bob sgil-gynnyrch anifeiliaid yn unol â'r Rheoliad ABP. Fel arfer, mae hyn yn golygu anfon y deunydd gwastraff i gyfleusterau cymeradwy neu gofrestredig i'w rendro neu ei losgi. Mae rhestr o safleoedd cymeradwy ar gael ar y dudalen Ffatrïoedd gweithredu sgil-gynhyrchion anifeiliaid: safleoedd cymeradwy. Gall yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion ( APHA) neu'ch awdurdod lleol (neu, mewn rhai achosion, adran Iechyd yr Amgylchedd) gynghori ar opsiynau gwaredu.

Yr awdurdod lleol perthnasol ar gyfer yr ardal lle mae'r fferm wedi'i lleoli sy'n gyfrifol am orfodi'r gofynion o ran sgil-gynhyrchion anifeiliaid ar ffermydd. Mae gan swyddogion awdurdodedig bwerau i fynd i mewn i safleoedd a'u harolygu, yn ogystal â chyhoeddi hysbysiadau lle bo angen. Gall y rhain gynnwys, er enghraifft:

- mynnu bod sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion deilliadol yn cael eu gwaredu
- mynnu bod y safle'n cael ei lanhau a'i ddiheintio, gan gynnwys nodi'r dull lle bo'n berthnasol
- gwahardd symud sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion deilliadol i'r safle neu oddi yno

Mae rhagor o ganllawiau ar gael ar gategoreiddio, trin a gwaredu sgil-gynhyrchion anifeiliaid. Os ydych chi yng Nghymru, ewch i dudalen Llywodraeth Cymru ar sgil-gynhyrchion anifeiliaid, ac os ydych chi yn Lloegr, gweler tudalen GOV.UK ynghylch categorïau sgil-gynhyrchion anifeiliaid, cymeradwyo safleoedd, hylendid a gwaredu.

1. Rheoliad (CE) Rhif 1069/2009, Adran 4

2. Rheoliad (CE) Rhif 1069/2009, Adran 4, Erthygl 10

# Lladd da byw gartref: Canllawiau ar y gyfraith yng Nghymru ac yn Lloegr – rheoliadau lles anifeiliaid

Y gofynion cyfreithiol a chanllawiau ar gyfer lladd da byw gartref o dan y Rheoliadau Lles Anifeiliaid.

## Rheoliadau lles anifeiliaid

Mae deddfwriaeth ar waith i ddiogelu lles anifeiliaid anwes wrth eu lladd. (footnote 1) Rhaid lladd yn unol â gofynion Rheoliad y Cyngor (CE) Rhif 1099/2009 ar ddiogelu anifeiliaid adeg eu lladd (o hyn ymlaen y Rheoliad PATOK), Rheoliadau Lles Anifeiliaid Adeg eu Lladd (Cymru) 2014 (PDF) a Rheoliadau Lles Anifeiliaid Adeg eu Lladd (Lloegr) 2015 (PDF) (y cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel y Rheoliadau WATOK).

O dan y Rheoliadau PATOK a WATOK, pan gaiff anifeiliaid eu lladd, rhaid iddynt gael eu harbed rhag unrhyw boen, trallod neu ddioddefaint y gellir eu hosgoi yn ystod y broses. Dim ond ar ôl eu stynio, yn unol â'r gofynion a nodir yn Erthygl 10 o Reoliad Lles Anifeiliaid yr UE ac Atodlen 2 i'r Rheoliadau WATOK, y caniateir lladd anifeiliaid gartref. Rhaid sicrhau bod y diffyg ymwybyddiaeth a synwyrusrwydd yn para hyd at farwolaeth yr anifail. Dim ond mewn lladd-dai

cymeradwy y caniateir lladd anifeiliaid heb eu stynio ymlaen llaw, trwy ddulliau a ragnodir gan ddefodau crefyddol, a hynny'n unol ag Atodlen 3 i'r Rheoliadau WATOK.

O dan y Rheoliad PATOK, mae Erthygl 7(1) yn nodi "killing and related operations shall only be carried out by persons with the appropriate level of competence to do so without causing the animals any avoidable pain, distress or suffering". (Sylwer nad yw'r dyfyniad hwn ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth ydyw na chafodd ei gwneud yn Gymraeg.)

Mae'r Gymdeithas Lladd heb Boen (HSA) yn cyhoeddi canllawiau ac yn darparu hyfforddiant ar gyfer lladd da byw ar y fferm, ac mae hefyd yn darparu gwybodaeth fanwl am ddeddfwriaeth ac arferion gorau i berchnogion da byw ar ladd heb greulondeb. Mae nifer o adnoddau ar gael ar wefan HSA.

Y tu allan i safleoedd cymeradwy (er enghraifft, wrth ladd gartref), mae'r Rheoliad PATOK yn cael ei orfodi gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) gyda chefnogaeth yr awdurdod lleol. Gall awdurdod lleol benodi arolygwyr at ddiben gorfodi'r Rheoliad PATOK a'r Rheoliadau WATOK mewn sefydliadau heblaw lladd-dai. Gall arolygydd, ar ôl rhoi rhybudd rhesymol (nid oes angen hyn bob amser), fynd i mewn i unrhyw safle ar awr resymol at ddibenion gweithredu neu orfodi'r Rheoliadau. Yn y cyd-destun hwn, mae "safle" yn cynnwys unrhyw dir, adeilad, sied, corlan, cynhwysydd neu gerbyd o unrhyw ddisgrifiad.

Gellir ymchwilio i unrhyw dystiolaeth o fethu â chydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol, fel y manylir yn y canllawiau hyn, a chymryd camau gorfodi priodol. Os oes unrhyw amheuaeth na ellir bodloni'r amodau lles gofynnol er mwyn gallu lladd da byw gartref yn gyfreithlon, rhaid lladd yr anifail/anifeiliaid mewn lladd-dy cymeradwy lle gall cig fod yn destun gweithdrefnau arolygu ffurfiol i wirio ei fod yn addas i'w fwyta gan bobl. Mae manylion lleoliadau lladd-dai cymeradwy i'w cael ar y dudalen Sefydliadau Bwyd Cymeradwy yng Nghymru a Lloegr, ac yn Atodiad A.

1. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i llyw.cymru/lles-anifeiliaid.

# Lladd da byw gartref: Canllawiau ar y gyfraith yng Nghymru ac yn Lloegr – enghreifftiau ymarferol

Enghreifftiau ymarferol sy'n dangos dulliau cywir ac anghywir o gymhwyso'r gofynion cyfreithiol ar gyfer lladd gartref.

## Enghreifftiau ymarferol

Mae'r enghreifftiau canlynol yn dangos y canlyniadau wrth gymhwyso'r gofynion cyfreithiol yn ymarferol.

**Y perchennog yn lladd ei dda byw gartref i'w bwyta ei hun a/neu gan ei deulu agos sy'n byw yn yr un cartref: Cyfreithlon**

Mae hyn yn gyfreithlon. Gan nad yw perchennog y da byw, yn yr amgylchiadau hyn, yn gweithredu fel gweithredwr busnes bwyd, nid yw'r Rheoliad Hylendid Bwyd yn gymwys. Fodd bynnag, mae lladd gartref yn dod o fewn cwmpas y Rheoliadau Lles Anifeiliaid Adeg eu Lladd (

WATOK), Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (TSE) a Sgil-gynhyrchion anifeiliaid (ABP ). Felly, rhaid lladd anifeiliaid heb greulondeb a rhaid i’r deunydd risg penodedig (SRM) gael ei dynnu, ei staenio a’i waredu fel sgil-gynhyrchion anifeiliaid categori 1. Rhaid i wartheg sydd angen prawf BSE gael canlyniad negyddol cyn y gellir bwyta’r cig. Ni ellir symud carcasau na rhannau o garcasau da byw sy’n cael eu lladd gartref i safle arall i’w prosesu, oni bai eu bod yn cael eu gwaredu fel sgil-gynhyrchion anifeiliaid.

Arferion gorau
Yr arfer orau yw rhoi gwybod ymlaen llaw i’r Tîm Iechyd a Lles Anifeiliaid yn yr awdurdod lleol lle mae’r fferm wedi’i lleoli am unrhyw ladd sy’n digwydd gartref. Os nad yw hyn yn bosib, y cyngor yw y dylid rhoi gwybod cyn pen 5 diwrnod ar ôl lladd yr anifail. Mae manylion cyswllt eich awdurdod lleol i’w gweld ar wefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac yn Atodiad A.

**Lladd a pharatoi’r anifail ar y fferm gan laddwr trwyddedig: Cyfreithlon**

Mae hyn yn gyfreithlon. Os nad ydych chi’n barod i gyflawni’r broses ladd eich hun, gallwch gyflogi lladdwr trwyddedig i ladd a pharatoi’r anifail/anifeiliaid ar y fferm sydd o dan eich cyfrifoldeb a’ch goruchwyliaeth chi. Rhaid i’r lladdwr feddu ar Dystysgrif Cymhwysedd neu drwydded WATOK ar gyfer y gweithgareddau perthnasol sy’n dangos bod ganddo’r wybodaeth a’r sgiliau sy’n angenrheidiol i gyflawni’r tasgau’n drugarog ac yn effeithlon. Dylai unrhyw laddwr trwyddedig allu cyflwyno tystiolaeth o’i drwydded. Fodd bynnag, os oes angen, gellir gwirio Tystysgrif Cymhwysedd neu drwydded WATOK lladdwr trwy anfon e-bost at WATOK@food.gov.uk gyda manylion yr unigolyn, gan gynnwys dyddiad geni a chyfeiriad os yw’n bosib. Ni ellir symud carcasau na rhannau o garcasau da byw sy’n cael eu lladd gartref i safle arall i’w prosesu, oni bai eu bod yn cael eu gwaredu fel sgil-gynhyrchion anifeiliaid.

Dim ond y perchennog a/neu deulu agos sy’n byw ar yr un aelwyd sy’n gallu bwyta cig o anifail a laddwyd gartref. Ni chaniateir gwerthu na rhoi cig o anifail a laddwyd gartref fel rhodd.
Arferion gorau

Yr arfer orau yw rhoi gwybod ymlaen llaw i’r Tîm Iechyd a Lles Anifeiliaid yn yr awdurdod lleol lle mae’r fferm wedi’i lleoli am unrhyw ladd sy’n digwydd gartref. Os nad yw hyn yn bosib, y cyngor yw y dylid rhoi gwybod cyn pen 5 diwrnod ar ôl lladd yr anifail. Mae manylion cyswllt eich awdurdod lleol i’w gweld ar wefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac yn Atodiad A.

Mae’r ASB yn cynghori perchennog y da byw a’r lladdwr sy’n ymgymryd â’r lladd (ar ran y perchennog) i gadw cofnod sy’n dangos pryd y defnyddir gwasanaethau’r lladdwr.

**Y ffermwr yn lladd ei dda byw gartref i’w bwyta gan westeion yn ei fusnes gwely a brecwast: Anghyfreithlon**

Mae hyn yn anghyfreithlon. Byddai perchennog y da byw yn cyflenwi’r cig wrth gynnal busnes, hynny yw, yn lladd ei anifail gyda’r bwriad o’i gyflenwi i’r gwesteion sy’n aros ym musnes gwely a brecwast y fferm. Rhaid i gig a roddir i westeion gwely a brecwast ddod o anifeiliaid a laddwyd mewn lladd-dy cymeradwy. Gall perchnogion da byw ddod o hyd i leoliadau lladd-dai cymeradwy ar y dudalen Sefydliadau Bwyd Cymeradwy yng Nghymru a Lloegr, ac yn Atodiad A.

**Lladd da byw ar safle rhywun arall nad yw wedi’i gymeradwyo: Anghyfreithlon**

Mae hyn yn anghyfreithlon. Mae’n anghyfreithlon lladd yr anifail unrhyw le arall i ffwrdd o’ch eiddo ac eithrio mewn lladd-dy cymeradwy, a bydd hyn yn cael ei orfodi gan yr awdurdod lleol.

**Lladd da byw yn breifat mewn lladd-dy cymeradwy: Cyfreithlon**

Mae hyn yn gyfreithlon. Cyfeiriwch at baragraff 2 am ystyr “lladd preifat”. Gall perchnogion da byw ddod o hyd i leoliadau lladd-dai cymeradwy ar y dudalen Sefydliadau Bwyd Cymeradwy yng Nghymru a Lloegr, ac yn Atodiad A.

## Cyfeiriadau

1. Mae rhestr o fanylion cyswllt defnyddiol a dolenni cysylltiedig i’w gweld yn Atodiad A.
2. Mae crynodeb o gwestiynau ac atebion ynghylch lladd gartref ar gyfer ffermwyr/ceidwaid i’w weld yn Atodiad B.
3. Mae diffiniad o ddeunydd risg penodedig (SRM) i’w weld yn Atodiad C.

## Adolygiad

Ein nod yw cadw’r holl ganllawiau yn gyfredol a chynnal adolygiadau rheolaidd i sicrhau bod canllawiau’n parhau i fod yn berthnasol. Y dyddiad adolygu nesaf sydd wedi’i drefnu ar gyfer y canllawiau hyn yw mis Mehefin 2027.

## Cysylltu â ni

Rydym yn croesawu eich adborth ar y canllawiau hyn, gan gynnwys adroddiadau am unrhyw ddolenni sydd wedi torri neu gynnwys sydd wedi dyddio. Byddwn yn ystyried yr holl adborth yn yr adolygiad arfaethedig nesaf o’r canllawiau. Anfonwch unrhyw adborth at meathygiene@food.gov.uk.

# Lladd da byw gartref: Canllawiau ar y gyfraith yng Nghymru ac yn Lloegr – atodiadau

Y gofynion cyfreithiol a chanllawiau ar gyfer lladd da byw gartref.

## Atodiad A: manylion cyswllt a dolenni defnyddiol

### Cysylltiadau

- Tîm Polisi Hylendid Bwyd yr ASB yng Nghymru
- Tîm Polisi Hylendid Cig yr ASB (Lloegr)
- Llywodraeth Cymru
- Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) (Lloegr)
- Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA)
- Safonau Masnach
- Awdurdodau Lleol
- Y Gymdeithas Lladd heb Boen (HSA)

### Dolenni

- Sefydliadau bwyd cymeradwy yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys lladd-dai
- Sut i sylwi ar BSE ac adrodd amdano
- Y Gymdeithas Lladd heb Boen (HSA)
- Safleoedd cymeradwy ar gyfer gwaredu sgil-gynhyrchion anifeiliaid, gan gynnwys deunydd risg penodedig (SRM)

- Safleoedd sydd wedi'u cymeradwyo i gynnal profion enseffalopathïau sbyngffurf trosglwyddadwy (TSE)

## Atodiad B: Crynodeb o gwestiynau ac atebion ynghylch lladd gartref ar gyfer ffermwyr/ceidwaid

### C1. Does dim pasbort gwartheg gen i ar gyfer fy anifail, ac mae wedi'i gyfyngu i'm daliad. A allaf ei ladd gartref?

Gallwch. Yn ddarostyngedig i'r rheolau arferol ar gyfer lladd gartref, nid yw Rheoliadau Adnabod Gwartheg 2007 (fel y'u diwygiwyd) yn gwahardd perchnogion da byw rhag lladd eu gwartheg ar y fferm i'w bwyta eu hunain, ar eu menter eu hunain, hyd yn oed os ydynt wedi'u cyfyngu oherwydd diffyg cydymffurfiaeth â rheolau adnabod, cofrestru a symud.

### C2. A allaf fwyta unrhyw gig o'm hanifeiliaid fy hun?

Gallwch, ond rhaid i chi sicrhau bod eich anifail yn cael ei ladd a'i baratoi'n gyfreithlon (gweler isod). Rhaid i'r holl ddeunydd risg penodedig (SRM) gael ei dynnu, ei staenio a'i waredu fel sgil-gynnyrch anifeiliaid Categori 1, ac ni ddylid ei fwyta. Gellir gweld diffiniad o Ddeunydd Risg Penodedig yn Atodiad C.

### C3. Sut y dylwn ladd fy anifeiliaid fy hun i'w bwyta gen i?

Mae dwy ffordd gyfreithlon o ladd a pharatoi eich anifeiliaid i'w bwyta gennych chi, sef:

(a) mewn lladd-dy cymeradwy; neu(b) ar eich fferm, gennych chi neu laddwr trwyddedig (neu ddeiliad trwydded Lles Anifeiliaid Adeg eu Lladd neu ddeiliad Tystysgrif Cymhwysedd) o dan eich cyfrifoldeb a'ch goruchwyliaeth. Ym mhob achos, byddai'n anghyfreithlon cyflogi unrhyw un heblaw lladdwr trwyddedig i ladd yr anifail ar eich safle. Byddai hefyd yn anghyfreithlon lladd yr anifail unrhyw le arall i ffwrdd o'ch eiddo, ac eithrio mewn lladd-dy cymeradwy.

Ni ellir symud carcasau na rhannau o garcasau da byw sy'n cael eu lladd gartref i safle arall i'w prosesu, oni bai eu bod yn cael eu gwaredu fel sgil-gynhyrchion anifeiliaid.

Mae'r ASB yn cynghori bod lladd gartref (opsiwn b) yn debygol o beri mwy o risg i iechyd y cyhoedd na lladd sy'n digwydd mewn safle cymeradwy (opsiwn a) lle gall cig fod yn destun gweithdrefnau arolygu ffurfiol i wirio eu bod yn addas i'w bwyta gan bobl. Gall perchnogion da byw ddod o hyd i leoliadau lladd-dai cymeradwy ar y dudalen Sefydliadau Bwyd Cymeradwy yng Nghymru a Lloegr, ac yn Atodiad A.
Arferion gorau
Yr arfer orau yw rhoi gwybod ymlaen llaw i'r Tîm Iechyd a Lles Anifeiliaid yn yr awdurdod lleol lle mae'r fferm wedi'i lleoli am unrhyw ladd sy'n digwydd gartref. Os nad yw hyn yn bosib, y cyngor yw y dylid rhoi gwybod cyn pen 5 diwrnod ar ôl lladd yr anifail. Mae manylion cyswllt eich awdurdod lleol i'w cael ar y dudalen Cysylltu â thîm diogelwch bwyd ar wefan yr ASB ac yn Atodiad A.

### C4. Beth ddylwn i ei wneud gyda'r deunydd gwastraff?

Os byddwch chi'n lladd anifail gartref, byddai unrhyw ran o'r carcas nad ydych chi'n ei fwyta yn cael ei dosbarthu fel sgil-gynhyrchion anifeiliaid o dan Reoliad (CE) Rhif 1069/2009. Byddai'n rhaid cael gwared ar y deunydd gwastraff yn unol â'r Rheoliad, er enghraifft, trwy drefnu i'r deunydd gael ei rendro neu ei losgi mewn cyfleuster cymeradwy a chadw cofnodion priodol o hyn. Gall APHA neu awdurdodau lleol (neu, mewn rhai achosion, adrannau Iechyd yr

Amgylchedd) roi cyngor ar yr opsiynau a fyddai ar gael i chi. Rhaid i ddeunydd risg penodedig gael ei dynnu o wartheg, defaid a geifr, ac ni ddylid ei fwyta. Rhaid i ddeunydd risg penodedig gael ei staenio a'i waredu fel sgil-gynnyrch anifeiliaid categori 1. Mae rhagor o wybodaeth, sy'n berthnasol i Gymru a Lloegr, ar gael ar wefan APHA ar y dudalen ynghylch categorïau sgil-gynhyrchion anifeiliaid, cymeradwyo safleoedd, hylendid a gwaredu sgil-gynhyrchion anifeiliaid.

**C5. A allaf werthu cig fy anifeiliaid fy hun?**

Dim ond os cafodd yr anifail ei ladd mewn lladd-dy cymeradwy y byddai'n gyfreithlon i chi roi'r cig ar y farchnad. Er enghraifft, drwy ei werthu yn eich siop fferm neu ei gynnig i westeion eich busnes gwely a brecwast. Gall perchnogion da byw weld lle mae'r lladd-dai cymeradwy ar y dudalen Sefydliadau Bwyd Cymeradwy yng Nghymru a Lloegr, ac yn Atodiad A.

**C6. A yw'r cyfyngiad ar gyflenwi cig a laddwyd gartref yn gymwys i bartneriaethau neu gyd-berchnogion?**

Ydy, oni bai bod y partner neu'r cyd-berchnogion yn aelodau o'r teulu sy'n byw fel rhan o'r un aelwyd. Mae'n annhebygol y byddai llys yn penderfynu bod cyflenwi cig a geir yn sgil lladd gartref yn gyfreithlon oherwydd ei fod wedi cael ei gyflenwi o fewn partneriaeth neu i gyd-berchennog.

**C7. Beth am reolaethau TSE ar gyfer moch, dofednod, anifeiliaid hela sy'n cael eu ffermio neu gwningod sy'n cael eu lladd gartref?**

Nid yw'r Rheoliadau TSE yn gymwys i foch, dofednod, anifeiliaid hela sy'n cael eu ffermio na chwningod.

**C8. Sut y gallaf drefnu bod prawf BSE yn cael ei gynnal ar fy ngwartheg sy'n cael eu lladd gartref?**

Dylech gysylltu â safle samplu BSE cymeradwy i wneud y trefniadau ar gyfer profi. Mae rhagor o wybodaeth sy'n manylu ar yr holl safleoedd samplu BSE cymeradwy ar gael ar wefan APHA.

**C9. A all lladd-dy cymeradwy ladd anifail yn breifat ar fy rhan?**

Gall, ar yr amod bod yr anifail yn cael ei ladd mewn lladd-dy cymeradwy. Wrth ladd anifail yn breifat, byddai'n rhaid dilyn yr un rheolau a gweithdrefnau â'r rheiny ar gyfer lladd anifail yn gonfensiynol (masnachol). Gall perchnogion da byw weld lle mae'r lladd-dai cymeradwy ar y dudalen Sefydliadau Bwyd Cymeradwy yng Nghymru a Lloegr, ac yn Atodiad A.

**C10. A allaf drefnu bod anifail yn cael ei ladd yn breifat mewn man heblaw lladd-dy cymeradwy?**

Gallwch, ond dim ond ar eich safle chi o dan yr amgylchiadau canlynol:

- Gennych chi neu, os nad ydych yn barod i gyflawni'r lladd eich hun, laddwr trwyddedig WATOK neu rywun sydd â Thystysgrif Cymhwysedd o dan eich cyfrifoldeb a'ch goruchwyliaeth ar y fferm at eich defnydd personol eich hun (gweler C3 uchod).
- Os bydd anifail yn cael damwain/anaf sy'n ei atal rhag cael ei symud i'r lladd-dy am resymau lles, gellir ei ladd ar y fferm o dan ddarpariaethau lladd mewn argyfwng, gyda'r cig wedyn yn cael ei ddychwelyd atoch chi. Fodd bynnag, o dan yr amgylchiadau hyn, rhaid i'r fath anifeiliaid fod yn destun archwiliad milfeddygol ac ardystiad ar y fferm cyn y gellir eu lladd a'u cludo i ladd-dy cymeradwy lle byddai'r carcas yn destun gweithdrefnau arolygu ffurfiol i wirio ei fod yn addas i'w fwyta gan bobl. Os ystyrir bod y cig yn addas i'w fwyta gan

bobl, gellir ei ddefnyddio at eich defnydd eich hun a gellir ei roi ar y farchnad hefyd.
- Fodd bynnag, mae eithriad sy’n caniatáu i chi ladd ar eich daliad niferoedd bach o ddofednod neu lagomorffiaid (cwningod) sydd wedi’u magu yno a rhoi eu cig ar y farchnad i’w bwyta gan bobl, yn dibynnu ar rai amodau. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i Atodiad B, paragraff B o: Polisi gweithredol ar gyfer cymeradwyo sefydliadau bwyd.

## Atodiad C: Diffiniad o ddeunydd risg penodedig (SRM)

**Gwartheg**

- O dan 12 mis oed: dim SRM
- Dros 12 mis oed: y penglog heb gynnwys y mandibl ond yn cynnwys yr ymennydd a’r llygaid, a madruddyn y cefn (‘spinal cord’)

**Defaid a geifr**

- O dan 12 mis oed: dim SRM
- Dros 12 mis oed (neu flaenddant parhaol gweladwy neu dros 12 mis oed fel yr amcangyfrifir gan ddull a gymeradwywyd gan yr ASB): penglog (gan gynnwys yr ymennydd a’r llygaid a madruddyn y cefn, ond heb gynnwys y cyrn), a madruddyn y cefn

### Gofynion staenio ar gyfer SRM

Mae staenio’n cynnwys trin y deunydd (boed drwy drochi, chwistrellu neu ddull arall) â chyfrwng lliwio gan ddefnyddio toddiant o’r fath gryfder fel bod y staenio i’w weld yn glir.

Rhaid defnyddio’r staen mewn modd sy’n sicrhau bod y lliw yn parhau’n weladwy:

- dros yr holl arwyneb sydd wedi’i dorri a’r rhan fwyaf o’r pen yn achos pen dafad neu afr, neu
- yn achos pob math arall o ddeunydd risg penodedig, dros arwyneb cyfan y deunydd

### Hanes diwygio

Cuddio pob diweddariad | Dangos yr holl ddiweddariadau

Published: 19 Ionawr 2026

Diweddarwyd ddiwethaf: 19 Ionawr 2026

- **19 Ionawr 2026** Added HTML version of the guidance, updated legal status, and revised sections on TSEs, animal by?products, and animal welfare regulations. Updated useful contacts and legislative references.
- **16 Ionawr 2026** Added HTML version of the guidance, updated legal status, and revised sections on TSEs, animal by products, and animal welfare regulations. Updated useful contacts and legislative references.

Yn ôl i’r brig